# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

# Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

| | |
|---|---|
| **Teitl**: Y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) | **Rhif Cyfeirnod yr Asesiad** *(i'w lenwi gan Uned y Gymraeg)*:<br><br>02/03/2018 |
| **Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen**: | Sian Brown |
| **Dyddiad:** | 01/03/2018 |
| **Arweinydd polisi:** | Sian Brown |
| **Manylion cyswllt**: | BlwchPontioEwropeaidd@llyw.cymru |

**Math o Raglen/Prosiect**

- ☐ Polisi
- x Deddfwriaeth
- ☐ Grant
- ☐ Newid busnes
- ☐ Seilwaith
- ☐ Adeiladu, Cyfalaf
- ☐ TGCh
- ☐ Arall (Nodwch isod)
- ☐ Prosiect neu raglen
- ☐ Ymchwil, gwerthusiad
- ☐ Gwasanaethau
- ☐ Contractau, tendrau

**Costau: Beth yw'r cost oes gyfan a ragwelir ar gyfer y rhaglen/prosiect?**
Os yn llai na £25k, nid oes angen asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).

| O dan £25k | £25 - £49k | £50 - £249k | £250k - £1miliwn | Mwy na £1miliwn |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg?**

Fel yr amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a luniwyd ochr yn ochr â'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r Undeb Ewropeaidd (Cymru) ("y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE"), mae ansicrwydd o hyd ynghylch costau gweinyddu llunio'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol oherwydd yr amgylchiadau unigryw wrth i'r DU yn ymadael â'r UE. Bydd yr ansicrwydd yn lleihau dros gyfnod o amser, wrth i'r gwaith fynd rhagddo ac wrth i ganlyniad y negodiadau a natur ein perthynas â'r UE yn y dyfodol a threfniadau Cymru a'r DU yn ehangach ddod yn gliriach. Fodd bynnag, yn sgil yr ansicrwydd hwn, ynghyd â'r cyfyngiadau amser, nid yw'r costau gweinyddu ar gyfer llunio'r is-ddeddfwriaeth ganlyniadol sydd ei hangen ar gyfer y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Gymraeg, yn hysbys ar hyn o bryd.

**Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?**

| Hyd at 1 flwyddyn | Hyd at 2 flynedd | Hyd at 5 mlynedd | Hyd at 10 mlynedd | Mwy na 10 mlynedd | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | X | |

**Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y prosiect:**

Rhaid i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE gael Cydsyniad Brenhinol (gan dybio y bydd yn cael ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) cyn i'r Bil i Ymadael â'r UE Llywodraeth y DU gael Cydsyniad Brenhinol. Bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, a'r rheoliadau a wneir oddi tano, yn parhau mewn grym hyd nes y bydd unrhyw gamau deddfwriaethol yn y dyfodol yn darparu fel arall.

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu (os oes angen) wrth i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE symud ymlaen drwy gyfnodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad").

**Cefndir**

Ar 13 Gorffennaf 2017, cafodd Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)[1] ("y Bil i Ymadael â'r UE") ei gyflwyno gan Lywodraeth y DU yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil i Ymadael â'r UE yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn darparu y bydd y corff cyfan o gyfraith yr UE (yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol) yn cael ei gorffori mewn deddfwriaeth ddomestig pan fydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno bod angen deddfwriaeth i gynnig sefydlogrwydd a pharhad wrth i'r DU ymadael â'r UE. Mae'n hanfodol darparu sicrwydd ac eglurder i ddinasyddion a busnesau yn ystod cyfnod o newidiadau digynsail. Y ffordd orau o gyflawni hyn fyddai i Senedd y DU ddeddfu Bil sy'n berthnasol i'r DU gyfan ac sy'n parchu'r setliad datganoli. Fodd bynnag, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno'r Bil i Ymadael â'r UE fel y cyfrwng deddfwriaethol i gyflawni'r amcan hwn, roedd yn amlwg nad dyna oedd ei hymagwedd.

Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â Llywodraeth yr Alban wedi ceisio mynd i'r afael â'u pryderon drwy weithio gyda Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i Ymadael â'r UE. Yn absenoldeb cytundeb, cafodd nifer o welliannau arfaethedig i Fil y DU eu cyhoeddi ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban a fyddai, o'u pasio, yn parchu'r setliadau datganoli. Cafodd y gwelliannau hynny eu cyflwyno i'w trafod yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin lle cafwyd pleidlais arnynt, ond ni chawsant eu pasio.

Gan na chafodd y gwelliannau arfaethedig i'r Bil i Ymadael â'r UE a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru eu pasio, ac na chafodd unrhyw welliannau ystyrlon eu cyflwyno gan Lywodraeth y DU, nid oes modd i Weinidogion Cymru argymell i'r Cynulliad roi cydsyniad mewn perthynas â'r Bil hwn wrth iddo adael Tŷ'r Cyffredin.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd yn cyflwyno gwelliannau i agweddau datganoli ei Bil yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i geisio dod i gytundeb ar welliannau i'r Bil i Ymadael â'r UE, ond mae'n rhaid iddi baratoi at y posibilrwydd na fydd y Cynulliad yn rhoi cydsyniad. Mae'r gwaith paratoi hwn wedi cynnwys datblygu y Bil Cyfraith sy'n

[1] https://services.parliament.uk/bills/2017-19/europeanunionwithdrawal.html

Deillio o'r UE.

Mae dau brif amcan i'r Bil hwn. Yr amcan cyntaf, yn gyson â'r Bil i Ymadael â'r UE, yw sicrhau bod y gyfraith yn parhau i weithio'n effeithiol wrth i'r DU ymadael â'r UE. Yr ail amcan yw sicrhau bod y Cynulliad a Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gymryd y camau deddfwriaethol angenrheidiol mewn perthynas â chyfraith yr UE sy’n gymwys o ran Cymru mewn meysydd datganoledig.

Bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, o'i basio gan y Cynulliad, yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru greu corff o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE drwy reoliadau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar faterion datganoledig sydd wedi'u cynnwys yn y canlynol:

- Cyfraith uniongyrchol yr UE
- Deddfiadau sy'n deillio o'r UE
- Darpariaeth a wneir o dan bwerau sy'n ymwneud â'r UE.

Mae cyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE i'w chreu drwy reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, felly ni fydd y Bil ei hun yn arwain at unrhyw newidiadau ymarferol ar unwaith. O ganlyniad, ni fydd y Bil yn gwneud unrhyw newidiadau i gyfraith yr UE. Bydd unrhyw newidiadau yn cael eu sicrhau drwy reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil, a fydd ond yn cael effaith ar ymadawiad y DU â'r UE.

Fodd bynnag, yn gyffredinol, amcan polisi y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw darparu bod yr un rheolau a chyfreithiau yn gymwys yng Nghymru ar y diwrnod ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys y diwrnod cyn hynny.

Os bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei basio gan y Cynulliad, byddwn yn ystyried pa asesiadau effaith pellach sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw raglen o is-ddeddfwriaeth dan y Bil. Mae'r dadansoddiad canlynol felly yn canolbwyntio'n bennaf ar y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, ond yn ystyried, i'r graddau y bo'n bosibl, effeithiau posib y rhaglen o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil.

## CAM 1: CYNLLUNIO

**Beth yw nodau ac amcanion y polisi?**
**Beth yw’r canlyniadau a ddymunir / beth gaiff ei ystyried yn 'llwyddiant'?**

Y prif gynnig yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru gynnal yr hawliau a'r rhwymedigaethau sy’n gymwys yng Nghymru ar hyn o bryd o dan gyfraith yr UE. Felly nid oes bwriad i’r Bil hwn gael effaith ar unwaith. Y rheoliadau a wneir o dan y Bil fydd yn gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol.

Mae pwerau Gweinidogion Cymru o dan y Bil wedi'u llunio'n benodol i'w harfer er mwyn sicrhau bod yr hawliau a'r rhwymedigaethau presennol yn cael eu dargadw. Fodd bynnag, bydd angen gwneud rhywfaint o addasiadau er mwyn sicrhau bod modd i'r llyfr statud weithredu'n effeithiol. Bydd angen gwneud rhywfaint o ddewisiadau polisi wrth fwrw ati â'r addasiadau hyn, ond eto, rhaid iddynt gadw at y

prif bolisi o sicrhau parhad.

Ni fydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn effeithio ar y Gymraeg. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Bil, bydd corff newydd o gyfraith ddatganoledig Cymru sy’n deillio o reolau presennol yr UE yn cael ei greu. Mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at newid sylweddol i ffynhonnell y gyfraith gymwys yng Nghymru. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi dewis cynnal Asesiad llawn o’r Effaith ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae graddfa yr is-ddeddfwriaeth fydd yn cael ei gwneud o dan y Bil yn parhau'n ansicr. Felly, nid yw'n bosibl ar hyn o bryd rhoi dadansoddiad manwl o effaith gweithredu'r Bil ar Gymraeg. Bydd yr ansicrwydd yn lleihau dros amser a bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd wrth i'r Bil symud ymlaen drwy gyfnodau'r Cynulliad. Os bydd y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei basio gan y Cynulliad, byddwn yn ystyried pa asesiadau effaith pellach sy'n angenrheidiol fel rhan o unrhyw raglen o is-ddeddfwriaeth dan y Bil. Mae'r canlynol yn tybio y bydd rhaglen o is-ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno o dan y Bil.

Ar hyn o bryd mae cyfraith yr UE, gan gynnwys cyfraith uniongyrchol berthnasol, ar gael mewn 24 o ieithoedd swyddogol yr UE (gan gynnwys Saesneg). Mae Saesneg yn iaith swyddogol, ac felly mae'r holl gyfraith uniongyrchol berthnasol ar gael yn Saesneg, ond nid yn Gymraeg.

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn galluogi i holl gyfraith uniongyrchol berthnasol bresennol yr UE sy'n cynnwys darpariaethau yn ymwneud â phynciau sydd wedi'u datganoli i'r Cynulliad gael eu cynnwys yn llawn yn offerynnau statudol Cymru. O ganlyniad i hynny, mae'n bosibl y gallai'r corff o gyfraith uniongyrchol yr UE fod ar gael yn ddwyieithog yng Nghymru am y tro cyntaf, felly bydd y gyfraith ar gael yn Gymraeg i ddinasyddion Cymru. Disgwylir mai hyn fydd unig effaith y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn ymwneud â Gymraeg. Fel y nodir uchod, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch cwmpas y rhaglen is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei llunio o dan y Bil. Wrth i'r sicrwydd gynyddu, bydd modd dadansoddi'r tebygolrwydd a chwmpas yr effaith ymhellach.

Gan y bydd corff o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE yn cael ei greu drwy reoliadau a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, yn hytrach na gan y Bil ei hun, bydd angen ystyried unrhyw effaith y bydd pob rheoliad yn unigol yn ei chael ar y Gymraeg fesul achos.

**Pa ddewisiadau polisi sydd wedi’u hystyried?**

**a**

**Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?**

Mae'r opsiynau canlynol wedi'u hystyried:

*Gwneud dim ac, o ganlyniad, defnyddio'r pwerau a ddarperir yn y Bil y Ymadael â'r UE, sydd ger bron y Senedd y DU ar hyn o bryd.*

Ar 13 Gorffennaf 2017, cafodd Bil y DU ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae Bil y DU yn diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac yn darparu y bydd y corff cyfan o gyfraith yr UE (yn ddarostyngedig i rai eithriadau penodol) yn cael ei gorffori mewn deddfwriaeth ddomestig pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Mae Bil y DU yn rhoi

pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Llywodraeth y DU gywiro diffygion o'r corff o gyfraith yr UE a fydd yn cael ei drosi i gyfraith ddomestig, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol; i wneud darpariaeth i atal neu unioni unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol y DU sy'n cael eu torri; a diwygio deddfwriaeth i sicrhau bod modd gweithredu unrhyw gytundeb ymadael â'r UE yn effeithiol.

O dan yr opsiwn hwn, byddai gan Weinidogion Cymru bwerau cyfatebol mewn perthynas â chyfraith ddomestig sy'n deillio o'r UE, rhwymedigaethau rhyngwladol y DU ac mewn perthynas â gweithredu'r cytundeb ymadael sy'n ymwneud â materion datganoledig. Fodd bynnag, ni fyddai pwerau Gweinidogion Cymru yn cynnwys delio â chyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE. Gan na fyddai Llywodraeth na Senedd y DU yn deddfu'n ddwyieithog, byddai unrhyw ddeddfwriaeth gan Weinidog Llywodraeth y DU o dan bwerau'r Bil i Ymadael â'r UE ar gael yn Saesneg yn unig.

Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli'r drefn bresennol. Mae corff o gyfraith yr UE ar gael ar hyn o bryd yn ieithoedd Aelod Wladwriaethau yr UE yn unig (gan gynnwys Saesneg). Byddai hyn yn parhau'n wir pe byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddibynnu ar y Bil i Ymadael â'r UE heb welliannau. Ar gyfer yr opsiwn hwn, ystyrir y byddai'r effaith yn niwtral ar y Gymraeg.

*Parhau i geisio gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella'r Bil i Ymadael â'r UE i adlewyrchu'r setliad datganoli yn well.*

Mewn ymateb i'r Bil i Ymadael â'r UE, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ynghyd â Llywodraeth yr Alban welliannau a oedd yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch y Bil o safbwynt datganoli. Roedd y gwelliannau yn ceisio dileu'r cyfyngiadau newydd arfaethedig ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r gwelliannau yn darparu na fyddai modd i Weinidogion Llywodraeth y DU ddefnyddio'r pwerau ar gyfer cywiro 'cyfraith yr UE a ddargedwir' i wneud darpariaeth o fewn cymhwysedd y deddfwrfeydd a'r gweinyddiaethau datganoledig heb ganiatâd y gweinyddiaethau datganoledig hynny, ac na ellid chwaith eu harfer i ddiwygio'r setliadau datganoledig (ac eithrio'r pwerau i weithredu'r cytundeb ymadael, lle mae angen cydsyniad y Gweinyddiaethau Datganoledig). Byddai gan Weinidogion Cymru (a'r Alban) hefyd bwerau cyfatebol i'r rheini a roddir i Weinidogion Llywodraeth y DU gywiro'r diffygion mewn cyfraith ddomestig o ganlyniad i ymadael â'r UE.

Byddai'r gwelliannau'n golygu bod gan Weinidogion Cymru yr un pwerau â Gweinidogion y Goron i ddiwygio diffygion ym mhob un o gyfreithiau yr UE a ddargedwir yn ymwneud â materion datganoledig. O ganlyniad i hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddelio â chyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE ond *gallai* ddewis gadael i rywfaint ohono ddod o dan reoliadau gan Weinidog Llywodraeth y DU er mwyn i'r rheoliadau hynny fod yn gymwys i'r DU gyfan.

Byddai rheoliadau gan Weinidogion Cymru i ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir yn cael eu gwneud yn ddwyieithog.

Mae'r opsiwn hwn yn cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gan y byddai'n arwain at gyfran uwch o'r rheoliadau yn cael eu gwneud o dan y Bil i Ymadael â'r UE

yn ddwyieithog, ond byddai hyn yn gyfyngedig oherwydd y byddai'r corff o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE yn parhau i fod ar gael yn Saesneg yn unig fel cyfraith yr UE a ddargedwir.

*Cyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE*

Fel yr amlinellwyd yn yr adrannau blaenorol, prif nod y Bil hwn yw darparu sefydlogrwydd rheoleiddiol yng Nghymru wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Yn gyffredinol, bydd hyn yn golygu bod yr un rheolau a chyfreithiau yn gymwys yng Nghymru ar y diwrnod ar ôl ymadael â'r hyn oedd yn gymwys y diwrnod cyn hynny. Mae'n gwneud hyn drwy roi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, greu corff o gyfraith Cymru sy'n deillio o'r UE. Byddai creu corff sylweddol o gyfraith o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael effaith fawr ar y Gymraeg gan y byddai'r rheolau o fewn cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE, o dan yr opsiwn hwn, ar gael yn ddwyieithog am y tro cyntaf.

Yr opsiwn hwn sy'n rhoi'r potensial mwyaf i gynyddu swm y ddeddfwriaeth fydd ar gael yn ddwyieithog yng Nghymru ac felly, o'r holl opsiynau a nodwyd, dyma'r un a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg.

**A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg - *Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr?***

Nod Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru i un filiwn erbyn 2050, a hefyd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae cyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn caniatáu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn sawl sefyllfa, ond gallai o bosibl gael effaith sylweddol ar y system gyfreithiol. Ar hyn o bryd, pan fo gwestiwn yn cael ei gyflwyno gerbron y llysoedd sy'n ymwneud â chyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE, nid yw'r llysoedd yn gallu ymgynghori â thestun Cymraeg y gyfraith. Mae modd defnyddio'r pwerau yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE i greu corff newydd o gyfraith a fyddai'n arwain at atgynhyrchu'r corff o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE, gyda'r addasiadau angenrheidiol, mewn cyfraith ddomestig yng Nghymru. Drwy hyn, byddai'r gyfraith ar gael yn ddwyieithog gan alluogi'r llysoedd, am y tro cyntaf, i gyfeirio at fersiynau Cymraeg o'r corff o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE gan felly ganiatáu i achosion gael eu penderfynu yn Gymraeg.

Byddai academyddion a myfyrwyr hefyd yn elwa ar allu cael adnoddau yn Gymraeg sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd (hy y corff o gyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE).

**Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar y Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**

Hy siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae Safonau'r Gymraeg ar gyfer llunio polisïau yn ei gwneud yn ofynnol, wrth benderfynu ar bolisïau, ystyried yr effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn golygu y gallai cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE fod ar gael, am y tro cyntaf, yn Gymraeg, a byddai statws cyfartal i'r

testun Cymraeg a Saesneg. Gallai'r Bil hefyd arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan ddinasyddion sydd am ddeall eu rhwymedigaethau a'u hawliau cyfreithiol ac ar gyfer academyddion a myfyrwyr sy'n astudio'r gyfraith, ynghyd â gorfodi'r gyfraith drwy'r system gyfreithiol.

**Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae grwpiau buddiant Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?**

Gan fod y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael ei gyflwyno dan fesurau brys, ni fu'n bosibl cynnal ymgynghoriad â rhanddeiliaid na darparu rhestr gynhwysfawr o'r rhai fydd yn cael eu heffeithio ganddo.

Rhagwelir y gallai'r Bil arwain at effaith drwy alluogi'r rheini sy'n dymuno gwneud hynny i ddarllen a deall eu hawliau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfreithiau yr UE a ddargedwir yn Gymraeg. Gallai hyn effeithio'n fwy ar fusnesau, y rheini sy'n gweithio yn y sector cyfreithiol, academyddion a myfyrwyr sy'n fwy debygol o ddefnyddio'r gyfraith. Credir y byddai'r grwpiau yr effeithir arnynt yn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw ddeddfwriaeth newydd gan mai effaith gadarnhaol yn unig y byddai'n ei chael. Mae hynny oherwydd y byddai'r Bil arwain at gynnydd yn y ddeddfwriaeth ddwyieithog fyddai ar gael yng Nghymru.

Bydd yr effaith ar randdeiliaid yn cael ei hadolygu'n gyson. Yn benodol, byddai unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cynnwys dadansoddiad o effeithiau ar y Gymraeg yn ôl yr angen.

**Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch fanylion llawn at ddibenion cadw cofnod.**

Amherthnasol

**Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?**
ee. gofynion Is-adran, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Is-adran y Gymraeg am gyngor)?

Prif bwrpas y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw sicrhau bod eglurder a sicrwydd ar gael i fusnesau a dinasyddion yng Nghymru drwy sicrhau y bydd yr un rheolau yn eu lle y diwrnod ar ôl i'r DU ymadael â'r UE â'r diwrnod cyn hynny, mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r setliad datganoli. Mae'r cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y Bil i Ymadael â'r UE yn golygu bod yn rhaid i'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE gael Cydsyniad Brenhinol cyn i'r Bil i Ymadael â'r UE gael Cydsyniad Brenhinol. O ganlyniad i hynny, rhaid cyflwyno'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE fel Bil Brys, a fydd yn rhoi llai o'r amser i'r Cynulliad graffu arno.

Drwy hynny, ni fu modd cymryd yr holl gamau cynllunio sydd fel arfer yn gysylltiedig â Bil.

Fodd bynnag, y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yw'r cyntaf yn unig o nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth newydd y bydd eu hangen pan fydd y DU yn ymadael â'r UE. Yn ôl yr angen, bydd gofyn dadansoddi'r effeithiau ar y Gymraeg ar gyfer pob un o'r rhain.

**CAM 2: PENNU AC ASESU EFFEITHIAU**

| **Crynodeb o'r Asesiad Effaith**<br>**Crynhowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.** | |
|---|---|
| **Effeithiau cadarnhaol:** | |
| Mae cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE ar gael ar hyn o bryd yn ieithoedd Aelod Wladwriaethau yr UE yn unig, gan gynnwys Saesneg. Nid yw ar gael yn Gymraeg. Mae'n bosibl y gallai'r Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE arwain at osod cyfraith uniongyrchol berthnasol yr UE sy'n ymwneud â phynciau datganoledig, gyda'r addasiadau angenrheidiol, mewn rheoliadau i Gymru a fyddai, felly, yn ddwyieithog.<br><br>Os byddai corff sylweddol o gyfraith yn cael ei greu o dan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE, byddai hyn yn arwain at effaith gadarnhaol gan y byddai'n galluogi dinasyddion sy'n dymuno darllen a deall eu rhwymedigaethau a'u hawliau cyfreithiol i wneud hynny yn Gymraeg, yn ôl eu dewis. Gallai hyn hefyd arwain at effaith gadarnhaol hyd yn oed yn fwy ar y rheini sy'n defnyddio'r system gyfreithiol, gan gynnwys y llysoedd, academyddion a myfyrwyr gan eu bod yn cyfeirio at y gyfraith yn rheolaidd.<br><br>Gan ddefnyddio'r system sgorio tebygolrwydd wedi lluosi â maint effaith, ystyrir bod yr effaith yn sgorio 3. Y rheswm dros hyn yw bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch cwmpas y rhaglen is-ddeddfwriaeth a fyddai'n cael ei llunio o dan y Bil.Wrth i'r sicrwydd gynyddu, bydd modd dadansoddi'r tebygolrwydd a chwmpas yr effaith ymhellach. | |
| **Effeithiau negyddol:** | |
| Amherthnasol | |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. cynnydd o ran statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?** | |
| Er nad oes unrhyw gymal penodol yn y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE wedi'i anelu'n uniongyrchol at hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r Bil yn ei gyfanrwydd yn cynnig cyfle i gynyddu'r defnydd o'r iaith.<br><br>Yn benodol, byddai unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil yn gallu hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys unigolion a busnesau sy'n defnyddio'r system gyfreithiol, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol sy'n rhoi cyngor ynghylch y gyfraith, myfyrwyr ac academyddion sy'n astudio'r gyfraith a system y llysoedd wrth weinyddu'r gyfraith. | |
| **Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:** | |
| Amherthnasol | |
| **Beth yw'r effaith gyffredinol debygol a ragwelir ar y Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu, ar sail yr asesiad effaith/asesiad risg?** | Cadarnhaol: x<br>Negyddol: ☐<br>Niwtral: ☐<br>Anhysbys: ☐ |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| **Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad** | 1. Dim newid sylweddol x |
| | 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau ☐ |
| | 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru ☐ |
| | 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno ☐ |

***Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod,* atebwch y canlynol:**
**Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru / pwyntiau gweithredu / dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:**

Amherthnasol

**Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Amherthnasol

## CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

**Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?**

Fel y nodwyd uchod, ni fu modd cynnal ymgynghoriad ynghylch y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE oherwydd y cyfnod amser byr sy'n angenrheidiol er mwyn ei basio.

**Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?**

Bydd yr effeithiau sy'n parhau i gael eu creu gan y Bil Cyfraith sy'n Deillio o'r UE yn cael eu monitro drwy asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ar reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil yn ôl yr angen.

**Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?**

Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy'r asesiadau effaith, lle bo angen, ar gyfer unrhyw reoliadau sy'n cael eu gwneud dan y Bil.

**Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg**

Amherthnasol

**4. Datganiad**

| |
|---|
| **Arweinydd polisi:**<br><br>**Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar y Gymraeg.** |
| Enw: |
| Sian Brown |
| Adran: |
| OFMCO |
| Dyddiad(au): |
| 01/03/2018 |
| Llofnod: |
| |
| Dyddiadau adolygu: |

| **ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH SWYDDOG CYFRIFOL** | |
|---|---|
| Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o ddatblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi. | |
| Llofnodwyd Robert Parry<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad 02/03/2018 |
| | |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |
| Llofnodwyd<br>(Uwch Berchennog Cyfrifol) | Dyddiad adolygu |